# Y COFIADUR

*Rhif 75* *Gaeaf 2024*

**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG**

# Y COFIADUR

## Cylchgrawn Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

*Rhif 75* *Gaeaf 2024*

Argraffwyd dros y Gymdeithas gan Wasg Serol, Castell-nedd

# Cynnwys

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru ........................ 3

Rhagair ........................................................................................ 5

Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R. Tudur Jones:

Y Cyfnod Allweddol ........................................................................ 7

Wncwl Bill: Y Parchg W. Rhys Nicholas (1914–96) ........................... 33

Swyddogion Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

| | |
|---|---|
| *Llywydd*: | Miss Joan M. Thomas, Caerfyrddin. |
| *Trysorydd*: | Mr Dafydd Roberts, Trefor. |
| *Swyddog Hyrwyddo*: | Mr Rhodri Darcy, Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ. |

Golygyddion *Y Cofiadur*: Cymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru

© 2024 y cyfranwyr

# Rhagair

Pleser unwaith eto yw cyflwyno'r rhifyn hwn o'r *Cofiadur* i'ch sylw, rhifyn sy'n cynnwys dwy erthygl a seiliwyd ar ddarlithoedd a draddodwyd yn ystod y flwyddyn fel rhan o weithgareddau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Roedd y gyntaf gan y Parchg Ddr Alun Tudur. Ef a draddododd Ddarlith Goffa'r Dr Pennar Davies a'r Dr R. Tudur Jones eleni, a hynny yn ystod yr encil i weinidogion yn Nant Gwrtheyrn ym mis Ebrill. Teitl ei ddarlith oedd 'Y Cyfnod Allweddol'. Ynddi bu'n sôn am y datblygiadau yn ymneilltuaeth Cymru yn ystod ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda'r nodweddion sectyddol yn dechrau dod i'r amlwg gan symud ymlaen at sefydlu'r enwadau.

Yng nghyfarfodydd blynyddol yr Undeb a gynhaliwyd yn Nhrefforest fis Gorffennaf eleni, Richard Huws draddododd ddarlith Cymdeithas Hanes yr Annibynwyr. Cyflwynodd sgwrs 'Cofio Wncwl Bil', sef atgofion ac argraffiadau Richard am ei ewythr, y diweddar Barchg W. Rhys Nicholas. Dysgwyd llawer am y dyn ei hun, yn hytrach na'i waith fel gweinidog ac emynydd. Yn dilyn ei sgwrs, cafwyd atgofion gan amryw un arall o blith y gynulleidfa am y gŵr diddorol hwn.

Dymuna pwyllgor y Gymdeithas Hanes ddiolch i'r ddau hyn am gyflwyno'u darlithoedd inni eu cynnwys yn y rhifyn hwn o'r *Cofiadur*. Diolch, hefyd, i Rhodri Darcy ac Elinor Wyn Reynolds am drefnu cyhoeddi'r cylchgrawn.

Joan Thomas, Caerfyrddin
Hydref 2024

*Darlith Goffa Dr Pennar Davies a Dr R. Tudur Jones a draddodwyd yn encil gweinidogion yr Annibynwyr 18 Ebrill 2024, Nant Gwrtheyrn*

# Y Cyfnod Allweddol

## Rhagarweiniad

Yr oedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gyfnod o dwf aruthrol yn aelodaeth, gweithgaredd a dylanwad y cyrff ymneilltuol yng Nghymru. Yn y ddarlith hon wrth ddefnyddio'r term 'cyrff ymneilltuol' cyfeiriaf at yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, y Methodistiaid Calfinaidd a'r Methodistiaid Wesleaidd. I raddau helaeth un mudiad Cristnogol oeddent er y gwahaniaethau yn eu dealltwriaeth o lywodraeth eglwysig.

Fy mwriad yw olrhain rhai o'r newidiadau fu yn natur y cyrff ymneilltuol a olygodd eu bod yn troi o fod yn sectau i fod yn enwadau. Byddaf yn cyflwyno tystiolaeth am newidiadau ddigwyddodd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fu'n rhan o'r datblygiad hwn gan ganolbwyntio ar y newid a welwyd yn y ddisgyblaeth eglwysig. Ni ddigwyddodd hyn dros nos ond roedd y cyfnod allweddol yn y datblygiad hwn yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Defnyddir y ddau derm sect ac enwad yma er mwyn ein cynorthwyo i ddiffinio'r math o gyrff Cristnogol yr oedd yr ymneilltuwyr ar y pryd, sy'n rhoi canllaw wrth inni ddadansoddi fel y gwelwn fod datblygiadau yn digwydd. Ni ddefnyddir y termau mewn unrhyw ffordd ddilornus ond fel diffiniadau cymdeithasegol penodol.

Y mae cymdeithasegwyr crefydd fel J. Milton Yinger a Bryan R. Wilson yn defnyddio pum term er mwyn categoreiddio mudiadau crefyddol Cristnogol. Yn eu barn hwy, y mae pob corff crefyddol yn bodoli yn unig oherwydd amgylchiadau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Ni roddant unrhyw ystyriaeth i Dduw, y Beibl na gwaith yr Ysbryd Glân. Er hynny mae'r termau a ddefnyddiant o gymorth mawr wrth geisio rhoi trefn ar ein meddyliau. Y pum term yw: cwlt, sect, enwad, *ecclesia* ac Eglwys

Gyffredinol. Y ddau derm y byddaf i'n eu defnyddio yma yw 'sect' ac 'enwad'.

Y mae nifer o ddiffiniadau cymdeithasegol o brif nodweddion sect ond dyma ddiffiniad Bryan R. Wilson o'i gyfrol ardderchog, *Patterns of Sectarianism*.[1]

> Typically a sect may be identified by the following characteristics: it is a voluntary association; membership is by proof to the sect authorities of some claim to personal merit – such as knowledge of doctrine, affirmation of a conversion experience, or recommendation of members in good standing; exclusiveness is emphasised and expulsion exercised against those who contravene doctrinal, moral or organisational precepts; its self-conception is of an elect, a gathered remnant, possessing special enlightenment; personal perfection is the expected standard of aspiration, in whatever terms this is judged; it accepts at least as an ideal, the priesthood of all believers; there is a high level of lay participation; there is opportunity for the member spontaneously to express his commitment; the sect is hostile or indifferent to the secular society and to the state.[2]

Gwelir nifer o'r nodweddion hyn yn ymarweddiad, agweddau a daliadau'r cyrff ymneilltuol yng Nghymru yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wrth edrych ar y cyfnod allweddol yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg canolbwyntiwn ar rai o'r datblygiadau sy'n tystio i'r broses fod y cyrff ymneilltuol yn datblygu o fod yn sectyddol i fod yn enwadol eu naws. Felly, y mae'n bwysig hefyd fod gennym ddiffiniad o enwad.

Dywed B. Wilson fod i'r enwad y nodweddion canlynol: cymdeithas wirfoddol; mae'n derbyn aelodau drwy ddull ffurfiol sefydledig; pwysleisir goddefgarwch; nid oes disgyblaeth lem; mae'n fodlon bod yn un o nifer o gyrff sydd yn dderbyniol yng ngolwg Duw; mae'n derbyn safonau, gwerthoedd a moesoldeb y diwylliant cyfoes; mae'r weinidogaeth yn broffesiynol; cyfyngir ar y cyfraniad a wneir gan yr aelodau lleyg; mae gwasanaethau'n ffurfiol ac nid oes unrhyw fynegiant byrfyfyr ynddynt; mae llawer o'r gweithgareddau ategol yn ddigrefydd; nid yw ymroddiad aelodau yn llwyr i'r achos; daw aelodau o bob dosbarth o'r gymdeithas.[3]

## Disgyblaeth eglwysig

Rhwng 1840 a 1870 bu nifer o ddatblygiadau allweddol yn y symudiad oddi wrth yr ymarweddiad a'r meddylfryd disgybledig sectyddol tuag at yr ymddygiad a'r agwedd oddefol enwadol. Roedd nifer o'r datblygiadau hyn yn cyd-ddigwydd, rhai ohonynt yn effeithio ar ei gilydd ac eraill yn ganlyniad i brosesau a gychwynnodd yn gynt yn y ganrif. Yn ogystal â hyn, yn y cyfnod hwn fe gychwynnodd rhai tueddiadau a gyfrannodd, yn nes at ddiwedd y ganrif, tuag at enwadaeth. Mewn gair, proses raddol a chymhleth oedd y symudiad hwn, ac am gyfnod maith roedd elfennau sectyddol ac enwadol yn byw ochr yn ochr â'i gilydd o fewn i'r cyrff hyn. Ffactor allweddol yn y datblygiad hwn fu'r newidiadau yn y ddisgyblaeth eglwysig. Yma, byddwn yn edrych ar y ddisgyblaeth yn gyffredinol, derbyn aelodau newydd, derbyn plant aelodau, y fodrwy aur ac i gloi, y niferoedd mawr a ddaeth yn aelodau.

## Newid yn y ddisgyblaeth

Un newid pwysig, os nad y pwysicaf, y gellir ei weld yn glir yw'r newid a fu yn natur ac ansawdd y ddisgyblaeth. Mae arwahanrwydd y sect oddi wrth y byd yn dibynnu i raddau helaeth, os nad yn llwyr, ar y ddisgyblaeth. Yn y cyswllt hwn y mae dylanwad disgyblaeth yn bwysicach na dylanwad diwinyddiaeth ac athrawiaeth, (h.y. os yw'n ymarferol bosibl gwahanu diwinyddiaeth oddi wrth ddisgyblaeth, oherwydd yn aml mae natur y ddisgyblaeth yn dibynnu ar y ddiwinyddiaeth a goleddir gan fudiad crefyddol). Unwaith y mae'r ddisgyblaeth yn llacio a'r aelodau'n gwrthod plygu iddi, yna mae agweddau bydol yn hydreiddio'r gymdeithas fewnol.

Ymhob sect y ddisgyblaeth yw'r gwrthglawdd yn erbyn y byd a'i ddylanwad. Dyma sy'n atal dylanwad allanol gan gadw'r gymdeithas fewnol yn bur a dilychwin; dyma sy'n atal bydolrwydd, materoliaeth a seciwlariaeth; dyma sy'n cadw pobl anaddas allan; dyma sy'n cadw safonau moesol uchel; dyma sy'n cadw rheolaeth ar yr aelodau fel eu bod yn wahanol i'r byd anghrediniol. Y gwir yw, pe bai sect yn llwyddo i gadw ei disgyblaeth ddechreuol yn dynn, gallai barhau fel sect yn ddiddiwedd heb ddatblygu i fod yn gorff o fath gwahanol. Gallai ei phwyslais diwinyddol

newid a natur ei haelodaeth hefyd, ond tra daliai'r ddisgyblaeth mewn grym, bydd y sect yn parhau fel sect. Felly, mae datblygiad y ddisgyblaeth yn hanfodol i'n hastudiaeth, ac yn arbennig y pethau hynny a effeithiodd ar y ddisgyblaeth gan ei gwanychu.

Mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol fod disgyblaeth eglwysig yn fanwl ar ddiwedd y 18fed ganrif a dechrau'r 19eg ganrif a'i bod yn cyffwrdd â phob agwedd o fywyd aelodau. Cynhwysai'r bywyd ysbrydol personol a chyhoeddus, moesoldeb personol a chymdeithasol, y defnydd o arian ac adnoddau, canlyn a phriodi, perthynas o fewn i deulu a rhwng cymdogion a'i gilydd ynghyd â daliadau gwleidyddol a safle cymdeithasol. Os ydych am gael syniad o ddisgyblaeth eglwysig y cyfnod byddai'n werth darllen *Rheolau a Dybenion y Cymdeithasau Neillduol yn mhlith y Bobl a elwir y Methodistiaid yn Nghymru*, Sasiwn y Bala 1801.

Gallwn ddosrannu'r newidiadau a fu yn y ddisgyblaeth yn ystod y 19eg ganrif yn fras i ddwy ran, sef llacio yn y safonau wrth dderbyn aelodau newydd, a lleihad cyffredinol yn nwyster y ddisgyblaeth.

## Derbyn aelodau

Fe edrychwn yn awr ar y newid a fu yn y dull o dderbyn aelodau newydd mewn i'r cyrff ymneilltuol. Yn ystod y ganrif, yn raddol disodlwyd yr hen ddull pwyllog o dderbyn ymgeiswyr i gyflawn aelodaeth drwy eu haddysgu a'u rhoi ar gyfnod o brawf, gan ddull o dderbyn aelodau'n sydyn wedi iddynt wneud proffes.[4]

Ar ddechrau'r ganrif pwysleisid pwyll a gochelid rhag derbyn pobl anaddas yn aelodau a oedd yn unig o dan effeithiau teimladrwydd. Rhoddid amser i ymgeiswyr ystyried oblygiadau dyfod yn Gristion cyn cyflwyno eu hunain yn aelodau eglwysig. Ond gyda'r pregethu cymelliadol a ddatblygodd rhoddid llawer mwy o bwysau ar y gwrandawyr i dderbyn Crist a chyflwyno eu hunain yn aelodau. Symudodd y pwyslais i raddau oddi wrth dderbyn Crist tuag at ddod yn aelod o'r eglwys.[5]

Y dull a fabwysiadwyd fwyfwy yng Nghymru wrth i'r ganrif gerdded yn ei blaen oedd 'tynnu'r rhwyd' ar derfyn gwasanaeth, dull a gyrhaeddodd ei anterth yn niwygiad 1859. Ystyr 'tynnu'r rhwyd' oedd galw ar derfyn

gwasanaeth ar i'r gwrandawyr a oedd wedi credu o'r newydd yn yr Arglwydd Iesu i aros ar ôl.[6] Er mai Humphrey Jones[7] a Dafydd Morgan[8] oedd y meistri wrth y gwaith hwn rhaid cofio fod y dull wedi hen ennill ei blwyf yng Nghymru cyn eu dyfodiad hwy fel diwygwyr. Yn ôl J. I. Packer, Charles G. Finney, y diwygiwr Americanaidd, a greodd y dull hwn o efengylu.[9] Ond mae lle i amau hynny yn ôl y dystiolaeth sydd gennym.

Dywedai Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon, fod John Elias o Fôn yn condemnio cymell yn llwyr ac yn gyfan gwbl, gan ei alw'n 'ysfa gnawdol o geisio myned a gwaith yr Ysbryd Glân yn nychweliad pechadur o'i law.'[10] Bu farw John Elias ym 1841 ac felly roedd yr arfer yn lled gyffredin cyn hynny. Cyfeiriai Robert Ellis hefyd iddo glywed sôn am William Morris, Cilgerran,[11] yn pregethu yn eglwys Jewin Crescent, Llundain, oddeutu 1829 ac ar derfyn y gwasanaeth yn cymell y gwrandawyr i roi eu hunain i Grist.[12] Os gwir hyn golygai'r ffaith hon un o ddau beth. Un ai fod syniadau Finney wedi dod dros yr Iwerydd o'r America yn aruthrol o sydyn drwy lythyrau neu drwy dafod leferydd teithwyr, gan na ddaeth ei *Lectures on Revivals and Religion* o'r wasg hyd 1835.[13] Neu, yn ail, fod yr arfer wedi cychwyn ar yr un pryd ar ddau gyfandir.

Profodd tynnu'r rhwyd yn ddull effeithiol, a fendithiwyd yn helaeth, o gael aelodau newydd i'r eglwysi. Ond nid y ffaith fod tynnu'r rhwyd yn digwydd yw'n diddordeb ni yn bennaf yn y fan hon, ond yn hytrach y newid a fu wrth dderbyn aelodau newydd. Y cwestiwn pwysig yw, pa bryd yr oedd ymgeiswyr yn dyfod yn gyflawn aelodau o'r eglwys, ai yn syth ar ôl gwneud proffes, ynteu a adawyd cyfnod o brawf rhwng gwneud proffes a'u derbyn yn gyflawn aelodau?

Yn niwygiad 1859 daeth tynnu'r rhwyd i fri o dan arweiniad medrus Humphrey Jones a Dafydd Morgan. Llwyddodd y ddau ddiwygiwr yma i berffeithio'r grefft. Daeth y drefn a fabwysiadwyd ganddynt yn y cyfarfodydd diwygiadol i'w hadnabod wrth yr enw 'pregeth ddwbl'. Pregethid i ddechrau o'r pulpud, ac yna ar derfyn y gwasanaeth deuid i lawr i'r sêt fawr gan roi pregeth fer yn ymbil ar y gwrandawyr i roi eu hunain i'r Arglwydd.[14] Nid oedd ffurf osodedig o wneud hyn; byddai'n amrywio o le i le. Mewn rhai cyfarfodydd gelwid ar y dychweledigion i ddod ymlaen un

ai i'r sêt fawr neu i fainc yn nhu blaen y capel.[15] Yn Nhre'r-ddôl gofynnai Humphrey Jones i'r dychweledigion godi eu dwylo.[16] Yn Ysbyty Ystwyth gofynnodd iddynt benlinio ac offrymu gweddi.[17] Ym Mhen-y-bont, Morgannwg, gorchmynnodd Dafydd Morgan i ddilynwyr Iesu fynd ar eu gliniau a dilynwyr Baal i fynd allan o'r capel.[18]

Ond pa bryd oedd y dychweledigion yn cael eu derbyn yn aelodau eglwysig cyflawn? Mae'r awgrym yn gryf fod llaweroedd yng ngwres y diwygiad wedi eu derbyn yn syth heb unrhyw ragbaratoad, dan wres teimlad. Cwynai Glan Alun[19] – sef Thomas Jones o'r Wyddgrug – ar ôl iddo fod mewn cyfarfod yn ystod diwygiad '59, na 'chanwyd pennill yn y diwedd, ac felly nid oedd un line wedi ei gosod i nodi allan y terfyn rhwng y cyfarfod cyffredinol a'r cyfarfod eglwysig; ac yna arosodd pawb i mewn yn synedig, ac mewn awydd i weled y diwedd.'[20] Mewn geiriau eraill roedd y cyfarfod cyhoeddus yn troi'n gyfarfod eglwysig heb roi cyfle i neb ymadael. Cofiai Glan Alun iddo hefyd fod mewn oedfa yng Ngharneddi, Bethesda, yn ystod diwygiad 1859, lle yr arhosodd 17 o'r newydd. Gofynnodd y pregethwr a arweiniai i'r gynulleidfa, 'Tybed a allwn ni fentro cymaint â hyn o bechaduriaid mawrion at Iesu Grist ar unwaith?' Atebodd y gynulleidfa'n gadarnhaol a derbyniwyd y dau ar bymtheg trwy i'r aelodau godi eu dwylo.[21] Os gwir hyn, golygai fod drysau'r eglwysi wedi eu hagor yn lletach nag erioed o'r blaen yn hanes ymneilltuaeth Cymru ac roedd i'r datblygiad hwn ganlyniadau pellgyrhaeddol.

## Anfodlonrwydd ac amheuon

Ffaith arall a ddengys fod newid pendant wedi digwydd yn y dull o dderbyn aelodau yw bod rhai o ysgrifenwyr y cyfnod yn mynegi cryn anfodlonrwydd o'r arfer newydd o dderbyn aelodau'n sydyn. Credai rhai y dylid arholi ymgeiswyr yn llawer manylach cyn eu derbyn yn gyflawn aelodau. Yn ei araith 'Yr Amserau Presennol', a draddododd yng nghwrdd chwarter Caerfyrddin, yn Abergorlech 29 Hydref 1851, pryderai Joshua Lewis fod dirywiad amlwg yn nisgyblaeth yr eglwysi ac fe gyfeiriai at dri pheth yn arbennig a'i blinai.

Yn y lle cyntaf, credai fod disgyblaeth bersonol aelodau'n cael ei

hesgeuluso. Meddai, 'Nid oes gwyliadwriaeth fanol yn cael ei chadw ar agwedd ysbrydol yr aelod. Ni sylwir yn ddigon craffus ar arwyddion oerfelgarwch a dirywiad ysbrydol, ni wneir ymchwiliad i'w hachosion, ac ni ddefnyddir moddion i adferu yr enaid a'i adfywio. Gall llawer sydd yn awr ar dir gwrthgiliad dystio, na chawsant gyngor, cyfarwyddyd, na rhybydd gan aelod, swyddog, na gweinidog, er eglured oedd yr arwyddion o'u dirywiad ysbrydol.'[22] Yn ei dyb ef felly, nid oedd digon o sylw yn cael ei roddi i gyflwr ysbrydol yr aelodau.

Yn ail, pryderai fod ffafriaeth yn codi ei ben ac awgrymai fod rhai swyddogion yn ofni disgyblu rhag sathru ar gyrn teuluoedd dylanwadol. Gofynnai'r cwestiwn, 'A weinyddir cyfiawnder ar y draul o ddigio y teuluoedd cyfoethog a chyfrifol?' Ei ateb oedd na! oherwydd bod swyddogion mewn rhai eglwysi wedi mynd i ystyried oblygiadau ariannol colli teuluoedd cyfoethog.

Y trydydd peth a'i gofidiai oedd bod eglwysi'n mynd yn llac wrth dderbyn aelodau newydd i'w cymdeithas gan ostwng eu safonau. Mae'n cynghori ei ddarllenwyr gan ddweud y dylid 'ymofyn yn fwy manol i sefyllfa ysbrydol y rhai a dderbynnir yn aelodau i'r eglwys.' Oherwydd yn ei dyb ef roedd 'drws yr eglwys yn llawer rhy lydan yn yr oes hon' a bod angen ei gyfyngu. Meddai, 'Dylid gwneuthur drws yr eglwys, mor bell ag y gellir ei fesur wrth y Gair, o'r un lled ac o'r un uchder a drws y nefoedd. Ni ddylai neb ond credinwyr gael eu derbyn yn aelodau o'r eglwys. Nid lle i wneuthur y drwg yn dda, ond lle i wneud y da yn well ydyw.'

Mae'r geiriau hyn yn ddadlennol oherwydd mae'n amlwg y teimlai Joshua Lewis fod anghredinwyr yn treiddio i mewn i gymdeithas fewnol y cyrff. Credai ymhellach mai bai'r cyrff eu hunain oedd hyn gan nad oeddent yn holi ymgeiswyr yn ddigonol cyn eu derbyn. Cwynai mai dim ond yn gyhoeddus yn y 'society' yr oedd yr eglwysi'n holi'r ymgeisydd, ac nad oedd holi ar lefel unigol, bersonol yn digwydd. Ac fe ychwanega'r sylw arwyddocaol, 'Edrychir ar y gofyniadau a roddir yn y *society* i raddau fel ffurf, ac y mae'r atebion fynychaf o'r un natur.' Hynny yw, yn ôl Joshua Lewis roedd pobl mewn rhai eglwysi'n cael eu derbyn mewn ffordd gwbl ffurfiol a defodol, arwydd pendant fod y cyrff yn colli peth o'u dwyster dechreuol.

Gwelwyd y ddau ddull o dderbyn aelodau, yn dod benben â'i gilydd yn yr hanes enwog am Dafydd Morgan a John Jones, Blaenannerch.[23] Roedd John Jones, Blaenannerch, ar ddechrau'r cyffroad yn bur amheus o ddiwygiad '59 ac o'r arfer newydd o bwyso ar bobl i gredu. Mewn cwrdd misol ym Mlaenannerch gofynnodd John Jones i Dafydd Morgan, 'Beth sy'n bod, Dafydd bach, beth sydd wedi dŵad drosot ti, machgen i? ... Beth yw'r hel pobl yma i'r seiat wyt ti'n wneud, heb roi amser iddynt i gysidro a bwrw'r draul, cyn dechreu adeiladu?' Ymatebodd Dafydd Morgan gyda'r cwestiwn, 'Faint o amser ddylai pechadur gael i gysidro, Mr Jones?' Atebodd John Jones, Blaenannerch, 'Dyw mis yn ddim gormod i gysidro peth mor bwysig.' A dywedodd Dafydd Morgan, 'Wel, wel! "heddyw" medd Ysbryd Duw; "yfory" medd y diafol; ond "fe wneiff y tro ymhen mis," medd yr efengylydd o Flaenannerch.'[24]

Dengys yr hanes hwn fod yr hen ddull o dderbyn aelodau yn llawer mwy pwyllog a gofalus na'r drefn newydd. Gwelwn hefyd fod anfodlonrwydd ymhlith rhai oherwydd bod aelodau'n cael eu derbyn heb 'fwrw'r draul'.

Teimlai Josiah Jones fod perygl mawr mewn derbyn aelodau anaddas oherwydd y byddai hynny'n anochel yn arwain at dyndra o fewn yr eglwysi, drwy i'r Cristnogion ymroddedig gael eu boddi gan y newydd ddyfodiaid:

> Os yn y lleiafrif y byddent, caiff pobl ddifrifol a duwiol yr eglwys deimlo eu bod yn dalpau meirwon, yn gorwedd bob amser ar eu llwybrau, pan yn ceisio dilyn yr hyn sydd yn dda. Ac, o'r tu arall, os byddant yn y mwyafrif dygant amcanion bydol a llygredig i mewn i'r eglwys, a thynnant gynlluniau amheus os nad pechadurus, er eu cyrhaedd ... Os bydd y dosbarth y soniwyd amdano oddeutu yn gyfartal mewn rhifedi a dylanwad ar y llall, gallwch ddisgwyl yn yr eglwys honno doraeth o ymrysonau ac ymladdfeydd.[25]

Tybed a oedd y geiriau uchod yn rhai proffwydol am yr hyn oedd i ddigwydd wrth i'r ganrif ddirwyn i ben? Byddai'n ddiddorol gweld a oedd cynnydd yn y nifer o gapeli 'sblit' yn ail hanner y ganrif. Oherwydd mae'r pwynt fod y rhai a oedd yn cael eu derbyn yn aelodau yn newid natur

eglwysi gan ddwyn ‘amcanion bydol a llygredig i mewn i’r eglwys’, yn un allweddol. Erbyn diwygiad 1904–05 roedd y duedd hon o dderbyn aelodau yn y fan a’r lle yn gwbl arferol, fel y tystia R. Tudur Jones, yn ei gyfrol *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*:

> Anodd iawn i’r eglwysi hyn oedd hyfforddi a chymhwyso pobl ar gyfer bod yn aelodau gwasanaethgar a deallus yn yr eglwysi. Ar ben hynny, yr arfer gyda phob enwad oedd derbyn dychweledigion y Diwygiad heb unrhyw baratoi arnynt. Ar sail eu profiadau tanllyd derbynnid hwy fwy neu lai ar unwaith yn gyflawn aelodau. Yr oedd hyn yn wendid mawr ac yn gamgymeriad costus a oedd i ddrygu’r eglwysi yn y dyfodol fel cancr. Ond wedyn, yr oedd yr hen arfer o hyfforddi darpar aelodau’n ofalus a’u cadw ar brawf yn hir yn darfod ymhell cyn hyn. Yn niwygiadau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ni ddychmygai gweinidogion dderbyn pobl yn unig ar sail eu teimlad gorfoleddus mewn oedfa. Y drefn oedd annog y dychweledigion i wneud cais i’r seiat (gyda’r Methodistiaid) neu i’r cyfarfod eglwys (gyda’r Annibynwyr a’r Bedyddwyr) am aelodaeth, a rhoddai hyn gyfle i weld a oedd eu hargyhoeddiad yn ddilys ynteu’n ffug.[26]

Gallwn ddweud yn bendant fod safonau derbyn aelodau newydd wedi gostwng yn ail hanner y ganrif a bod canlyniadau niferus i’r datblygiad hwn. Nid oedd yr aelodau newydd mor ddisgybledig a chaeth yn eu golygiadau â’r aelodau gwreiddiol. Nid oeddent wedi eu trwytho i’r un graddau mewn diwinyddiaeth ag aelodau hŷn. Oherwydd nad oeddent yn cael eu holi gyda’r un manylrwydd ag yn y gorffennol, roeddent yn cario llawer o agweddau bydol i mewn i’r eglwysi, gan leihau’r gwahaniaeth rhwng yr eglwys a’r byd. Ceid hefyd bobl yn llithro i mewn i’r eglwysi nid oherwydd bod ganddynt unrhyw argyhoeddiadau Cristnogol arbennig, ond oherwydd eu hawydd am addysg; er mwyn cael manteision cymdeithasol bod yn aelod eglwysig e.e. ysgol Sul, ysgol gân, darlithiau, cyngherddau; er mwyn cael gwaith; er mwyn cael statws a hyd yn oed er mwyn cael gŵr neu wraig. Parai presenoldeb pobl o’r fath lacio pellach ar y ddisgyblaeth, drwy iddynt

yn raddol gael eu dwylo ar yr awenau a dylanwadu ar yr aelodau gwreiddiol. Pen draw hyn oedd bod y broses o dderbyn aelodau'n troi'n fwy ffurfiol byth. Roedd fel cylch di-dor gyda phob ton o aelodau newydd, wrth iddynt sefydlu a chael eu dyrchafu'n arweinwyr, yn llacio ychydig mwy ar y ddisgyblaeth.

## Dirywiad disgyblaeth

Yr ail beth a welwn yn ail hanner y ganrif oedd llacio cyffredinol yn y ddisgyblaeth. Ar ddechrau'r ganrif gallai disgyblaeth eglwysig fod yn haearnaidd a manwl iawn. Cwestiwn diddorol gyfyd yw pa mor effeithiol oedd y ddisgyblaeth, a pha mor barod oedd yr aelodau eglwysig i blygu i'r drefn? Fe ymddengys ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a chychwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fod disgyblaeth yn cael ei gweinyddu'n rhwydd a diwrthwynebiad, a bod yr aelodau'n fodlon plygu iddi fel rhan o'u dyletswydd Gristnogol. Ond erbyn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd newid sylfaenol ar waith, a cheir yr argraff fod y cyrff yn cael anhawster cynyddol i weinyddu disgyblaeth yn yr un modd ag yn y gorffennol, gan nad oedd aelodau yr un mor barod i ufuddhau. Un o'r rheolau cyntaf i drengi oedd y seithfed rheol ymhlith y Methodistiaid Calfinaidd sef 'na ieuer chwi yn anghymharus' ac nid hon oedd yr unig reol i golli'r dydd.

Credai cofianyddion Gwilym Hiraethog, sef Thomas Roberts a David Roberts fod hyn yn gysylltiedig â datblygiadau diwinyddol y cyfnod a'r symudiad oddi wrth Uchel Galfiniaeth tuag at Galfiniaeth Gymhedrol.[27] Roedd Thomas Rees, Abertawe, yn awgrymu rhywbeth digon tebyg pan ddywedodd, 'profa hanes yr eglwys, yn neillduol hanes Ymneillduaeth yn y deyrnas hon, fod dynion pan yn gwyro oddiwrth athrawiaeth iachus, yn debyg hefyd o wyro oddiwrth foesoldeb.'[28] Yr 'athrawiaeth iachus' yn ôl pob tebyg oedd Calfiniaeth. Ym marn Thomas Rees felly pan fyddai corff yn symud oddi wrth Galfiniaeth – tuag at Arminiaeth hwyrach – byddai'r safonau moesol, ac felly'r ddisgyblaeth, yn gwegian. Awgrymodd B. Wilson yn union yr un peth.[29]

Nawr fe edrychwn ar bedwar ffactor a oedd yn rhannol gyfrifol am y llacio yn y ddisgyblaeth, sef gorlymder, derbyn plant aelodau, y fodrwy aur a chynnydd yn y niferoedd.

## Gorlymder disgyblaeth

Gwendid a ddaw i'r amlwg drachefn a thrachefn sydd yn gysylltiedig â disgyblaeth oedd ysbryd y disgyblwyr. Mae'n amlwg fod rhai o'r swyddogion eglwysig yn troi'n gas wrth ddisgyblu, yn gymaint felly, fel ei fod mewn rhai achosion yn peidio â bod yn ddisgyblu a throi'n ddim byd mwy na chosbi arwynebol. Roedd y seiat a'r cyfarfod eglwys ambell dro yn ymdebygu fwy i lys gwladol seciwlar nag i gyfarfod Cristnogol ysbrydol. Y gwir yw bod y cyrff mewn sefyllfa ddigon anodd. Roedd disgyblu manwl a deddfol yn golygu, er mwyn tegwch, y dylid mabwysiadu holl ddulliau y llys barn, fel y llysoedd eglwysig yn Eglwys Loegr. Ond nid oedd gan y cyrff yr adnoddau i wneud hyn. Nid oedd cyfreithiau addas ganddynt, na swyddogion hyddysg ynddynt, na'r adnoddau ariannol i gynnal peirianwaith cyfreithiol. O ganlyniad, yr oedd disgyblu'n aml iawn yn annheg, mympwyol a blêr. Wrth gynghori Gwilym Hiraethog un tro ar ddisgyblaeth eglwysig, dywedodd Williams o'r Wern hyn:

> Y mae dynion i'w cael yn yr eglwysi yn bur gyffredin, nad oes dim wrth eu bodd cystal a dysgyblu a diarddel ar bob achlysur; diarddelu yn unig yw dysgyblaeth, dybiant hwy; dyfal chwiliant am achos i'w ddwyn gerbron yr eglwys, dan obaith o gael barn diarddeliad ar y cyhuddiedig, ac os methant, cwynant yn ddwys dan ocheneidio yn drwm fod disgyblaeth wedi myned dan draed yn yr eglwys honno.[30]

Fe geid felly mewn nifer o eglwysi swyddogion sarrug a fyddai'n disgyblu nid gydag addfwynder ond gyda llymder diangen. Ceir toreth o dystiolaeth fod amryw o'r swyddogion eglwysig yn annoeth ac anghariadlon wrth ddisgyblu. Wrth ddisgrifio gŵr o'r enw John Pierce, Ty'nllwyn (1795–1844), aelod yng nghapel y Trefnyddion Calfinaidd yn Nhanygrisiau, fe ddywed David O. Hughes, amdano:

> Arferai ddysgyblaeth eglwysig fanwl gan gadw rhag y gerwinder a'r llymder oedd yn nodweddu llawer o'r hen flaenoriaid pryd hwnnw. Byddai rhai o'r hen flaenoriaid yn cymeryd y blaen mewn achosion o ddysgyblaeth yn myned i eithafion mewn llymder, pryd y byddai ef yn credu y buasai cerydd ysgafnach yn gwneud y tro, os nad yn ateb y dyben yn well; ac wrth gyhoeddi y ddedfryd, byddai yn wylo nes methu siarad gan dynerwch ei deimladau; a phob tro cyn eistedd i lawr gofalai am ddweud ychydig eiriau fyddent fel dyferiad olew i friwiau y cyhuddiedig.[31]

Trueni nad oedd pob swyddog eglwysig mor dyner â John Pierce, gan fod carfan ohonynt yn llym iawn gyda throseddwyr, dynion a oedd yn anghofio mai ar egwyddor cariad y sylfaenwyd disgyblaeth eglwysig ac mai ei phrif bwrpas oedd adfer aelodau cyfeiliornus nid eu dinistrio.

Mae'n amlwg fod gerwinder swyddogion wrth ddisgyblu, wedi mynd o dan groen Yr Hen Ddysgybl, oherwydd wrth gyfeirio at hyn yn ei draethawd ar ddisgyblaeth eglwysig mae'n mynd ar gefn ei geffyl. Gresynai wrth feddwl cyn lleied 'ydyw rhifedi y rhai sydd yn ei wneud yn amcan difrifol i ennill ac adferu eu brodyr, ac nid eu dinystrio!'[32] Fe'n harweinir ni i ystyried beth oedd wedi codi gwrychyn yr Hen Ddysgybl cymaint, oherwydd y mae'n hallt iawn ei dafod wrth gyfeirio at swyddogion eglwysig. Dywed:

> Nid ychain yn cornio y dylai swyddogion eglwysig fod; ond dylent ymddwyn fel athrawon a bugeiliaid at eu brodyr, gan eu dysgu a'u porthi â gwybodaeth ac â deall, gan eu harwain a'u diogelu rhag cael niwed, a rhwymo eu harchollion gan dywallt ynddynt olew a gwin pan y bydd achos. Gresyn fod y ddelw sydd ar ambell i swyddog eglwysig mor wrthwyneb i hyn, a bod ambell un yn ei arferion a'i dueddiadau, a'r ffurf ymosodol sydd arno, yn cyfateb ac yn ddarluniad rhy berffaith o lawer o ych hwyliog fyddo yn bugynad ac yn chwythu ei ffroenau, a gwg yn ei drem, ac ymddial lond ei natur; a'i holl agweddiad yn dywedyd fod ei gyrn yn beryglus, ac yn darogan dinystr y gwrthrych y bydd iddo gael

> cyfle i ymosod arno. Maent yn eu helfen gyda'r gorchwyl hwn – maent wrth eu hoff waith o geryddu ...[33]

Nid yr Hen Ddysgybl oedd yn unig o'r farn hon. Yn ei erthygl yn *Y Dysgedydd* (1848), roedd Dr Payne hefyd yn anhapus gydag ysbryd y disgyblu. Dywed, 'Nid anfynych, ysgatfydd, y cyfyngir yr ymadrodd, dysgyblaeth, at weinyddiad cerydd eglwysig ...'[34] Yr un oedd barn Ebenezer Richards, Tregaron. Cwynai ef fod 'ambell flaenor wrth geryddu aelod yn yr eglwys yn debyg fel pe gwelech ryw ddyn yn mynd i ladd gwybedyn ar dalcen ei frawd gyda morthwyl haiarn. Dim ond gwybedyn sydd yno; a phe bae ef yn estyn ei fys, byddai yn llawn ddigon i ateb y dyben ...'[35]

Yn fwy na hynny gallai gorlymder ac annhegwch wrth ddisgyblu, nid yn unig droi pobl oddi wrth Gristnogaeth, ond gallai hefyd arwain yr aelodau i wrthryfela yn ei herbyn, ac yn sicr fe ddigwyddodd hyn erbyn diwedd y ganrif. Ymateb naturiol unrhyw un wrth weld gerwinder diangen yw ei wrthwynebu.

Yn ail hanner y 19eg ganrif mae'n amlwg fod cyfnewidiad wedi digwydd, ac yn parhau i ddigwydd am gyfnod maith gyda golwg ar agwedd y cyrff ymneilltuol tuag at ddisgyblaeth, oherwydd erbyn 1876 gallai'r Parchg Powell ddweud fel hyn, 'Yr ydym yn sylwi fod cyfnewidiad mawr ar ddysgyblaeth eglwysig. Y mae fwy anhawdd diarddel a thorri allan o'r eglwys nag ydoedd gynt, gyda' r gwahanol enwadau, a mwy o ymdrech i adgyweirio yn yr eglwysi.'[36] Gwelai'r Parchg Powell hyn fel peth da, fel arwydd fod y swyddogion yn ceisio 'cael y beius o afael ei fai' yn hytrach na'u cosbi. Ond tybed ai dyma oedd y gwir? Ynteu a oedd y cyrff ymneilltuol yn cael mwy a mwy o anhawster i weinyddu'r ddisgyblaeth, i ddiarddel, a chael yr aelodau i ufuddhau? Roedd llacio mawr yn y ddisgyblaeth fel bod rhai o fewn eglwysi'r Trefnyddion Calfinaidd yn ôl R.P., yn barod 'i oddef bron bob math o droseddwyr yn yr eglwys.'

Ond roedd Cromwel o Went wedi gweld y duedd hon ymhell o flaen llaw. Ym 1848 yn ei lyfr Eglwys Crist, pryderai ef fod 'gormod o ymdrech am ychwanegu rhif yr aelodau gan wahanol enwadau, yn hytrach nag edrych fod y cyfryw a dderbynnir yn addas ddefnyddiau i Eglwys Crist ...'[37] Mynnai

fod safonau'r cyrff yn gostwng a bod pobl annheilwng yn cael mynediad, ac felly bod y safonau'n dirywio ymhellach. Symptom o'r dirywiad hwn yn ôl Cromwel oedd bod yr eglwysi'n ymddwyn nid yn ôl y Beibl and yn ôl barn yr ardal. Mynegai ei bryderon yn y geiriau canlynol, 'nid beth ddywed y Beibl ydyw hi, ond beth ddywed yr ardal, a pheth yw sŵn y byd, ac wrth lais oddiallan, yn rhy fynych, y gweinyddir dysgyblaeth oddifewn yn nhŷ Dduw.'

Bu gorlymder mae'n amlwg yn wendid mawr yn y ddisgyblaeth, gwendid a danseiliodd y ddisgyblaeth maes o law drwy i'r aelodau deimlo fod swyddogion yn rhy chwyrn gyda throseddwyr.

## Derbyn plant

Agwedd arall a gyfrannodd at ddadfeiliad disgyblaeth oedd derbyn plant aelodau. Barn nifer fawr o gymdeithasegwyr yw bod derbyn ail genhedlaeth mewn corff Cristnogol yn elfen fawr o'r datblygiad o sect i enwad.[38]

Fe all y broses o dderbyn plant dychweledigion oeri natur y sect, oherwydd er bod rhieni wedi dod yn aelodau drwy argyhoeddiad a thröedigaeth, gall y plant ddod yn aelodau o ganlyniad i bwysau cymdeithasol a theuluol, a'r ffaith syml eu bod yn dilyn ôl traed eu rhieni. Nid yw olyniaeth na thraddodiad yn gydweddol â natur sect. Yr unig ffordd y gall y sect ei diogelu ei hun yn wyneb derbyn plant aelodau, yw trwy gadw safon uchel wrth eu derbyn ac yna cadw'r ddisgyblaeth yn ddiwyro wedi eu derbyn.

Gwelodd Robert Ellis, Ysgoldy, yr anhawster sydd ynghlwm wrth dderbyn plant aelodau pan ysgrifennai ym Medi 1871. Byddai rhieni yn ôl pob tebyg yn ymaelodi oherwydd argyhoeddiad personol ac yna byddai eu plant yn cael 'eu dwyn i fyny yn yr eglwys o'u mebyd. Ac wedi iddynt gyrraedd oedran, yna rhaid yw eu derbyn i gyflawn aelodaeth.'[39] Ac fe ychwanega'r ebychiad cyfoes 'Ac yna yswaeth, yn rhy aml, dyne y cwbl drosodd gyda hwy.'[40] Yr anhawster oedd bod pwysau ar y cyrff i dderbyn plant aelodau nid oherwydd eu bod wedi dod dan argyhoeddiad Cristnogol ond oherwydd eu bod wedi 'dod i oed'. Ymhelaethai Robert Ellis ar y pwynt gan ddweud, 'Tybier fod cynifer o fechgyn a lodesi wedi dyfod i'r oedran

priodol i'w derbyn, ond heb yr oll ohonynt yr un mor gymwys. Os derbynnir rhai, a gadael ereill o'r neilldu, dyma blant a rhieni yn cymeryd achlysur i dramgwyddo. Ac felly, er gadael tramgwydd, ni bydd dim i'w wneud ond derbyn yr oll, gan obeithio y gorau. Ac fel hyn y mae yn berygl i oedran ddyfod yn fwy o safon i aelodaeth eglwysig had yr Eglwys na chymwysderau ereill angenrheidiol.'

Gwelwn yma eto y duedd i'r cyrff ymateb nid i arweiniad y Beibl ond i bwysau cymdeithasol a disgwyliadau anysbrydol rhieni. Canlyniad hyn oedd bod rhai plant heb unrhyw argyhoeddiad Cristnogol yn dod yn aelodau. Ac fe ddywedai Robert Ellis 'mai yr hyn sydd fwyaf bygythiol i grefyddolrwydd yr eglwysi yn y dyfodol yw gwaith rhieni yn magu eu plant yn yr eglwys heb yr ymgais briodol i'w magu yn grefyddol.'

Yn y fan hon fe gyfyd pwnc diddorol iawn wrth i'r weithred o dderbyn aelodau – yn arbennig yn achos plant – droi o fod yn ddigwyddiad ysbrydol, a ddangosai fod person yn cyflwyno ei hun yn llwyr i' r Iesu, i fod yn ddefod gymdeithasol, a ddangosai fod ieuenctid wedi 'dod i oed'. Trwy hyn deuai 'derbyn i gyflawn aelodaeth' yn rhyw fath o garreg filltir ar daith bywyd. Enw anthropolegwyr ar hyn yw defodau tramwyo (*rites of passage*),[41] ac fe'u cysylltir gan amlaf gyda digwyddiadau fel genedigaethau, blaenlencyndod, priodasau a marwolaethau, pryd y cynhelir defodau cymdeithasol ar hyd a lled y byd ar yr achlysuron hyn mewn bywyd er mwyn eu dathlu. Golyga hyn fod 'derbyn yn aelod' yn colli ei arwyddocâd ysbrydol gan fabwysiadu arwyddocâd cymdeithasol, hynny yw, mae'n cael ei seciwlareiddio. Onid yw'n eironig fod ymneilltuwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn taranu yn erbyn defodaeth weledig y Pabyddion a'r Anglicaniaid tra ar yr un pryd – yn ddiarwybod iddynt eu hunain – roedd defodaeth anweledig yn ymgripio'n llechwraidd i'w gweithgareddau hwy eu hunain? Gellir priodoli'n union yr un peth i fedydd, priodas a chladdu. Mae'r rhain hefyd yn ddefodau tramwyo cymdeithasol pwysig. Wrth i sect gynyddu yn ei dylanwad mae'n hynod anodd diogelu eu harwyddocâd crefyddol drwy iddynt gael eu herwgipio gan gymdeithas e.e. pobl yn mynnu bedyddio eu babanod 'am eu bod yn dod ymlaen yn well'; pobl eisiau priodi yn y capel, nid er mwyn selio'r cyfamod ym mhresenoldeb

Duw, ond am fod gwasanaeth capel yn fwy 'neis' na gwasanaeth swyddfa gofrestru; a phobl eisiau i'w perthnasau gael eu claddu gyda defod Gristnogol am mai dyna sy'n weddus. Ym mhob un o'r enghreifftiau hyn mae gweinyddu defodau tramwyo'n rhoi lle cyhoeddus i'r eglwys – ond y pris yw seciwlareiddio. Un o'r rhesymau am hyn yw bod y sect yn cael safle defodol pendant o fewn y patrwm cymdeithasol.[42] Ac yn sgil hynny'n troi o fod yn fudiad sy'n gwrthwynebu'r byd i fod yn fudiad sydd nid yn unig yn dderbyniol yng ngolwg y byd ond yn cynnal y *status quo*. Mae'n rhaid bod y datblygiad hwn – y seciwlareiddio ar wasanaethau ysbrydol – yn rhan allweddol o'r symudiad tuag at enwadyddiaeth.[43]

Am gyfnod maith fe fu'r cyrff yn ennill llu o bobl o'r byd, pobl nad oedd ganddynt fawr gysylltiad gyda llan na chapel. Ond fel y cerddai'r ganrif yn ei blaen roedd mwy a mwy o blant credinwyr yn dod yn aelodau. Golygai hyn fod elfen o draddodiad yn dod i fywydau'r cyrff a rhai pobl yn cael eu derbyn oherwydd cysylltiadau teuluol, a phlant yn cael eu derbyn yn unig oherwydd eu bod wedi cyrraedd oedran arbennig. Pen draw hyn fyddai i'r broses o dderbyn plant aelodau droi fwy neu lai yn ddefod ffurfiol ac arwynebol. Os nad oedd ganddynt wir argyhoeddiad, wrth i'r genhedlaeth hon dyfu o fewn i'r cyrff, yna byddai'r ddisgyblaeth eglwysig yn sicr o newid.

## Y fodrwy aur

Elfen arall a gyfrannodd at lacio'r ddisgyblaeth, oedd newid yn natur yr aelodaeth. Wrth i nodweddion cymdeithasol Cymru newid gyda'r chwyldro diwydiannol a chynnydd mewn cyfoeth a safonau byw, golygai hynny newid hefyd i raddau yn natur aelodaeth yr eglwysi ymneilltuol. Buddiol fyddai nodi'r dyfyniad hwn gan Werner Stark:

> Nevertheless, the upward movement of sectarians in the scale of prosperity, and their correlated downward movement in the scale of rebelliousness, is so general that it may justly be called a mass phenomenon ... There is something in sectarianism itself which leads – via wordly success – to the decay of sectarianism.[44]

Erbyn ail hanner y ganrif fe geid llawer mwy o dirfeddianwyr, arweinyddion gwleidyddol a dynion busnes da eu byd yn aelodau yn yr eglwysi. Y duedd oedd bod y bobl hyn, mawr eu parch yn y byd, yn ennill safle o awdurdod yn yr eglwysi. Roeddent yn aml yn hael iawn yn ariannol tuag at yr achosion a golygai hyn fod rhai yn cyrraedd safle dylanwadol o fewn i eglwysi nid oherwydd rhesymau Cristnogol ac ysbrydol, nid oherwydd duwioldeb a sancteiddrwydd, ond oherwydd eu safle yn y byd. Ar ddechrau'r ganrif y rheswm pennaf pam y byddai dyn yn dod yn swyddog eglwysig oedd oherwydd ei rinweddau ysbrydol, ond mae tystiolaeth glir nad gwir hyn erbyn diwedd y ganrif. Yn ei atgofion am Robart y Go' rhydd Andronicus[45] syniad bras i ni o bwy oedd yn flaenoriaid mewn capel gerllaw Caernarfon:

> Gan fod meistriaid amryw o'r ffermydd mwyaf yn yr ardal hon, fel ym mhob ardal arall, yn perthyn i'r set fawr, bydd gryn dipyn o jobs yn yr efail noson seiat. Mae y ffarmwrs mwya' bob amser yn perthyn i'r set fawr, os byddant yn perthyn i'r capel o gwbl. Mae hyn yn hen arferiad yn yr ardaloedd hyn. Nid am fod mwy ym mhen y ffarmwr mawr, ond y mae yn lle neis i'r pregethwyr aros.[46]

Yn ddiweddarach yn ei atgofion cyfeiria at sgwrs rhwng Robart y Go' â gŵr o'r enw John. Yr oedd Robart yn amddiffyn blaenoriaid y capel gan ddweud eu bod wedi eu dewis drwy arweiniad. Ond fe atebodd John ef gan ddweud:

> Pob parch i chi, Robart Jones, choelia i byth mo hyn. 'Does gen i ddim mymryn o ffydd yn y codi blaenoriaid yma – y fodrwy aur pia hi, Robart Jones. Ty braf i gymryd pregethwrs, a gig i fyn'd i'r stesion i'w cyfarfod nhw.

Felly roedd ffermwyr cefnog ardaloedd yn tueddu i ffeindio eu ffordd i'r sêt fawr. Ni ellir dweud fod pob ffermwr cefnog yn dduwiol, gan hynny mae'n rhyfedd o beth fod cymaint ohonynt yn llwyddo i gael swyddi o fewn i'r eglwysi. Yr unig ateb y gellir ei roi yw eu bod ambell dro yn cael eu dyrchafu nid oherwydd eu duwioldeb and oherwydd eu safle o barch yn y byd. Yn aml fe geir cyfeiriadau at swyddogion yn gwyro yn eu barn oherwydd

presenoldeb teuluoedd cyfoethog o fewn i eglwysi. A bod pwy oeddech a beth oeddech yn y byd a maint eich cyfoeth yn dod yn bwysig. Term a ddefnyddid yn gyson er mwyn cyfeirio at ddylanwad cyfoethogion yn yr eglwysi oedd y 'fodrwy aur' ac roedd eu dylanwad hwy yn effeithio fwyfwy ar yr eglwysi. Fel yr awgrymai Moses Ellis:

> Y mae bydolrwydd yr eglwys rhai gweithiau wedi eu harwain i'r amryfusedd hwn: gor awydd am gael idd ei chymundeb y mawrion a'r cyfoethogion, yn hytrach na chael gwir ddychweledigion, gan nad beth fyddai eu sefyllfaoedd yn y byd.[47]

Gallai'r cyfoethogion hefyd, ambell dro, ddianc rhag disgyblaeth eglwysig oherwydd bod swyddogion ofn colli eu cyfraniadau ariannol, fel y dywedai Thomas Rees, yn ddiflewyn ar dafod:

> Mor aml yr esgeulusir cynghori a rhybuddio dynion dan yr esgus o ofn dolurio eu teimladau; ac O! y miloedd a adewir o flwyddyn i flwyddyn i bydru yn eu pechodau, am fod yr eglwysi y perthynant iddynt â mwy o barch ganddynt i'r 'fodrwy aur' nag i sancteiddrwydd. Un o'r gwarthnodau atgasaf ar Babyddiaeth yw ei bod yn caniatáu i ddynion brynu ag arian eu rhyddid i bechu yn ddigerydd ... Pa le y mae yr enwad neu yr eglwys lle nas goddefir i ddynion cyfoethog neu ddoniol, gyflawni pechodau yn ddigerydd, yn diarddel dynion tylodion a diddawn? Onid yw yn wirionedd galarus, mai y crefyddwyr gwaelaf yn ein holl eglwysi ym mhob ystyr, ond mewn cyfrannu arian, ac yn hynny yn fynych, yw y dynion mwyaf cyfoethog, gyda rhai eithriadau teilwng? ... Onid yw yr argraff ar feddwl llawer o'n proffeswyr goludog, eu bod yn cyflawni eu holl ddyledswydd os gallant ddyfod i'r addoliad un waith neu ddwy bob Sabboth, a chyfrannu ychydig bunnoedd yn y flwyddyn at achosion crefyddol?'[48]

Yr hyn oedd yn rhyfeddol am y cyrff ymneilltuol am gyfnod, a chredaf fod hyn yn wir am bob sect, oedd bod gwerthoedd ysbrydol yn cael y blaen ar werthoedd cymdeithasol. Gallai gweithiwr cyffredin fod yn ddiacon ar ei

feistr gwaith.[49] Ond wrth i'r cyrff dyfu a datblygu roedd llai a llai o hyn yn digwydd ac roedd safle person o fewn i'w eglwys yn aml yn adlewyrchu ei safle yn y byd. A thrwy hyn fe danseiliwyd sylfaen ysbrydol y gymdeithas fewnol. Mewn geiriau eraill roedd dylanwad y byd yn cynyddu gan dreiddio mewn i gymdeithas y saint ac o ganlyniad roedd yr eglwys yn ymdebygu fwyfwy i'r byd.

## Niferoedd

Yr elfen olaf, yr ydym am gyfeirio ati, a effeithiodd ar y ddisgyblaeth, oedd y cynnydd aruthrol a fu yn niferoedd aelodau'r eglwysi dros gyfnod cymharol fyr. Roedd cynnydd y cyrff yn syfrdanol yn ail hanner y ganrif. Er mwyn rhoi syniad o'r hyn a ddigwyddodd rhoddwn yma ychydig enghreifftiau o niferoedd sy'n gysylltiedig yn fwyaf arbennig â Diwygiad 1859. Dyfynnwn yn gyntaf o lyfr Henry Hughes,[50] *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*:

> Fel hyn y dywed Dr Rees yn ei *History of Nonconformity in Wales*; – 'Bernir nad oes yn ystod y diwygiad hwn, o fis Rhagfyr, 1858, hyd fis Mawrth, 1860, ddim llai nag o 35,000 i 40,000, wedi eu chwanegu at eglwysi yr Annibynwyr, ac oddeutu yr un nifer at y Methodistiaid; bernir fod tua 10,000 wedi eu chwanegu at y Bedyddwyr, ac o 4,000 i 5,000 at y Wesleyaid.' Mae ystadegau y Methodistiaid yn dangos fod dros 40,000 wedi eu chwanegu at nifer eu cymunwyr mewn rhyw bedair neu bum mlynedd yn yr adeg yma; yr hyn sydd yn dangos fod Dr Rees yn bur agos i'w le. A chredwn hefyd y gallasai chwanegu fod o leiaf o 3,000 i 4,000 wedi eu chwanegu at yr Eglwys Wladol ... Mae hyn yn gwneyd nifer y dychweledigion yn y diwygiad hwn yn bur egos i 100,000 mewn rhifedi.[51]

Yr un yw'r dystiolaeth hefyd wrth edrych ar ardaloedd o fewn i Gymru. Dywed Edward Parry fod rhif y dychweledigion yn Aberystwyth mewn llai na blwyddyn yn agos i fil. Yng Nghaergybi roedd rhif y dychweledigion rhwng y pedwar Corff yn 1,149, ac mewn cyfnod o 12 mis 'derbyniodd y Parchg A. J. Parry, Cefn-mawr, tros ddau gant trwy fedydd.'[52] Mewn

achosion unigol hefyd fe welwn yn union yr un patrwm. Yn ystod diwygiad 1849, yn eglwys Annibynnol Ebeneser, Aberdâr, derbyniwyd 100 o aelodau newydd yn yr un gwasanaeth, a rhwng 27 Mai a 30 Rhagfyr yn yr un flwyddyn derbyniwyd 139 o'r newydd yno.[53] Yn eglwys y Tabernacl, Lerpwl, pan oedd John Thomas yn weinidog yno derbyniwyd 80 o'r newydd, a hynny yn y pedwar mis cyntaf o'r flwyddyn 1860.[54] Mewn dim ond tair oedfa gymun eto yn eglwys Ebeneser, Aberdâr, yn ystod y flwyddyn 1859, derbyniwyd cyfanswm o 203 o'r newydd. Ac yn y blaen.

Rhydd yr ystadegau uchod ddarlun o'r cynnydd enfawr a fu mewn aelodaeth eglwysig yn ail hanner y ganrif. Mae'n anhygoel meddwl fod rhwng 80 a 100 mil o aelodau newydd wedi dod at y cyrff ymneilltuol mewn cyfnod byr yn niwygiad '59. Roedd hi'n gwbl amhosibl i nifer mor fawr o bobl ddod yn aelodau heb iddynt adael eu hôl ar y cyrff ac heb i'r cyrff orfod addasu i ryw raddau.

Roedd effaith y cynnydd hwn yn fawr ar y cyrff yn gadarnhaol ac yn negyddol. Ond beth oedd effaith hyn ar y ddisgyblaeth eglwysig? Yn anorfod fe ddaeth newid yn y ddisgyblaeth o ganlyniad i'r cynnydd. Nid mater o ddewis oedd hyn ond mater o raid oherwydd pwysau amgylchiadau. Yn syml, gan fod cymaint wedi dod yn aelodau mewn cyfnod byr, nid oedd hi'n ymarferol bosibl i fynd trwy eu profiadau a'u buchedd hefo crib mân wrth eu derbyn. Ac ar ôl eu derbyn nid oedd hi'n rhwydd eu hyfforddi a'u disgyblu. Mae gwahaniaeth aruthrol rhwng cadw golwg ar aelodaeth o 30 o'i gymharu ag aelodaeth o 400. Canlyniad hyn yn anochel oedd bod pobl anaddas yn cael eu derbyn. Roedd y rheolau disgyblaethol yn parhau ond nid oeddynt yn cael eu gweinyddu gyda'r un manylder ag yn gynt yn y ganrif. Yn y cyd-destun hwn bu'r twf sydyn yn andwyol i'r cyrff gan ei fod wedi gwanychu'r ddisgyblaeth. Mae'n debygol iawn, pe bai'r twf wedi digwydd yn raddol dros gyfnod hir, y byddai datblygiad y cyrff wedi bod yn wahanol, drwy iddynt ddelio'n fwy effeithiol gyda'r cynnydd.

Yn y ddarlith hon felly, gwelwn fod nifer o ffactorau ar waith a oedd yn gwanhau'r ddisgyblaeth eglwysig. Roedd dull derbyn aelodau a phlant yn troi'n llawer mwy ffurfiol a ffwrdd â hi a heb yr un dwyster yn perthyn iddo.

Roedd gorlymder swyddogion yn troi aelodau yn erbyn y ddisgyblaeth. Roedd pobl gefnog ambell dro yn effeithio ar farn y swyddogion, ac ni lwyddodd y cyrff i ddelio'n effeithiol gyda'r torfeydd enfawr a drodd atynt yn ail hanner y ganrif. Unwaith eto rhaid pwysleisio fod hyn wedi digwydd yn raddol dros gyfnod.

Canlyniad yr holl ddylanwadau hyn, yn gam neu'n gymwys, oedd disodli'n raddol nodweddion pendant, disgybledig a dwys sectyddol y cyrff a wahanai credinwyr oddi wrth anghredinwyr, gan agwedd llawer mwy eangfrydig a goddefol. Trwy hyn roedd y cyrff ymneilltuol yng Nghymru yn prysur ddatblygu i fod yn enwadau dylanwadol a oedd yn diosg y nodweddion sectyddol. Proses oedd hon a barhaodd i mewn i'r ugeinfed ganrif.

## Troednodiadau

1 Bryan R. Wilson, *Patterns of Sectarianism*, (Llundain, Heinmann, 1967).

2 Ibid., 23–4.

3 Ibid., 25. Am enwad gw., Roland Robertson, *The Social Interpretaion of Religion*, (Oxford, Blackwell 1970), 79, 118. Richard Niebuhr, *The Social Sources of Denominationalism*, (Meridian, Efrog Newydd, 1957). Werner Stark, *The Sociology of Religion*, (Llundain, 1966), cyfrol 2, 301.

4 H. Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), 263.

5 Gw., *Y Traethodydd*, 1859, 374–5.

6 Am enghreifftiau o dynnu'r rhwyd gw., H. Hughes *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), 410–1. E. Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad '59* (Y Bala, 1930), 44. J. J. Morgan, *The '59 Revival*, 25, 102, 124. J. J. Morgan, *Dafydd Morgan a Diwygiad '59* (cyhoeddwyd gan yr awdur, 1906), 40, 69, 228,475.

7 Am Humphrey Jones (1832–95), gw., Bywg., 441.

8 Am Dafydd Morgan (1814–83), gw., Bywg., 603.

9 J. I. Packer, *Among God's Giants*, (Eastbourne, Kingsway Publications, 1991), 385.

10 John Owen Jones, *Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon*, (Caernarfon, 1883), 269.

11 Am William Morris (1783–1861), gw., Bywg., 628.

12 John Owen Jones, *Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy, Arfon*, (Caernarfon, 1883), 269.

13 Gw., B. B. Warfield, *Perfectionism*, (Philadelphia, 1958), 214.

14 Gw., Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), 419, 421.

15 E. Isaac, *Humphrey Jones a Diwygiad '59* (Y Bala, 1930), 44.

16 Ibid., 35–36.

17 J. J. Morgan, *Dafydd Morgan a Diwygiad '59*, (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1906), 40.

[18] Ibid., 239.

[19] Am Thomas Jones (Glan Alun'; 1811–66), gw., Bywg., 487.

[20] *Y Traethodydd*, 1859, 276.

[21] Henry Hughes, *Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), 441.

[22] Joshua Lewis, *Yr Amserau Presenol*, pamffled, Llyfrgell Coleg Prifysgol Cymru, Bangor, E. E. 495., 37.

[23] Am John Jones (1807–75), gw., Bywg., 452.

[24] J. J. Morgan, *Hanes Dafydd Morgan, Ysbyty a Diwygiad '59* (Cyhoeddwyd gan yr awdur, 1906), 129.

[25] *Yr Annibynwr* 1861, Josiah Jones, Machynlleth, 147.

[26] R. Tudur Jones, *Ffydd ac Argyfwng Cenedl*, (Abertawe, 1982), cyfrol 2, 217.

[27] T. Roberts & D. Roberts, *Cofiant W. Rees*, (Dolgellau, 1893), 79.

[28] Thomas Rees, *Natur, Trefn a Dybenion Dysgyblaeth Eglwysig*, (Llanelli, 1853), 21–2.

[29] Bryan R. Wilson, *Patterns of Sectarianism*, (Llundain, Heinmann, 1967), 42.

[30] T. Roberts a D. Roberts, *Cofiant W. Rees*, (Dolgellau, 1893), 151, 79–80.

[31] David O. Hughes, *Canrif o Hanes sef Hanes yr Achos Methodistaidd yn Nhanygrisiau 1809–1909*, (Blaenau Ffestiniog, 1909), 95.

[32] *Hen Ddysgybl, Traethawd ar Ddysgyblaeth Eglwysig, Ynghyd a Sylwadau Manwl a Helaeth ar y Pwnc Ieuo Anghydmarus*, (Lerpwl, 1865), 58.

[33] Ibid., 59.

[34] *Y Dysgedydd*, 1848, 77.

[35] *Y Drysorfa*, 1856, 234.

[36] *Y Drysorfa*, 1876, 115.

[37] H. Jones (Cromwel o Went), *Eglwys Crist, sef Darluniad o'r Eglwys neu'r Eglwysi Cristnogol yn ôl y Testament Newydd*, (1848), 53.

[38] R. Mehl, *The Sociology of Protestantism*, (Llundain, SCM Press, 1970), 38.

[39] J. O. Jones, *Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy*, (Caernarfon, 1883), 202.

[40] Ibid. Gw., hefyd, Os Guinness, *The Gravedigger File*, (Sevenoaks, 1984), 152.

[41] Am ddefodau tramwyo gw., Mircea Eliade (gol. ), *The Encyclopaedia of Religion*, (Llundain, 1987), cyfrol 12, 380–6. David L. Sills (gol.), *International Encyclopaedia of The Social Sciences*, (1968), cyfrol 10, 'Myths and Symbol', 576–7. Mircea Eliade, *Rites and Symbols of Initiation*, (Efrog Newydd, 1958).

[42] Gw., Os Guinness, *The Gravedigger File*, (Sevenoaks, 1984), 150.

[43] J. O. Jones, *Cofiant a Gweithiau y Parch. Robert Ellis, Ysgoldy*, (Caernarfon, 1883), 243.

[44] W. Stark, The Sociology of Religion, (Llundain, 1966), cyfrol 2, 264, 267.

[45] Am John William Jones ('Andronicus'; 1842–95), gw., Bywg., 460.

[46] Andronicus, *Adgofion Andronicus*, (Caernarfon, 1894), 128.

[47] Moses Ellis, *Y Pwys o Fod Gwahaniaeth Rhwng yr Eglwys a'r Byd yn Fwy Amlwg*, (Llanelli, 1853), 12.

[48] Thomas Rees, *Natur, Trefn a Dybenion Dysgyblaeth Eglwysig*, (Llanelli, 1853), 30–1. Ceir cyfeiriad at y 'fodrwy aur' yn Llythyr Iago pennod 2 adnod 2.

[49] David O. Hughes, *Canrif o Hanes*, (Blaenau Ffestiniog, 1909), 14–5,

[50] Am Henry Hughes (1841–1924), gw., Bywg., 336.

[51] Henry Hughes, *Hanes Diwygiadau Crefyddol Cymru*, (Caernarfon, 1906), 395. Thomas Rees, *History of Protestant Nonconformity in Wales*, (dau argraffiad, 1861, 1883), 431. R. Tudur Jones, *Hanes Annibynwyr Cymru*, (Abertawe, 1966), 236.

[52] Edward Parry, *Llawlyfr ar Hanes Y Diwygiadau Crefyddol yng Nghymru*, (Corwen, 1898), 152.

[53] Jacob Treharne, *Hanes Eglwys Annibynol Ebenezer, Aberdar* (Aberdâr, 1898), 32.

[54] Owen Thomas & J. Machreth Rees, *Cofiant y Parchedig John Thomas, D. D. Liverpool,* (Llundain, 1898), 210.



*Y Parchg W. Rhys Nicholas*

# Wncwl Bill: Y Parchg W. Rhys Nicholas (1914–96)

*Talfyriad o sgwrs a roddwyd yng nghyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr, Trefforest, 12 Gorffennaf 2024*

Richard E. Huws

Roedd W. Rhys Nicholas yn ewythr i mi. Yn 1946, yng nghapel Bwlch-y-corn ar gyrion Caerfyrddin, priododd Elizabeth Dilys Evans, Anti Beti, un o chwiorydd iau fy mam. Yn anarferol braidd, fe'i hadweinid wrth dri enw – Bill gan ein teulu ni, Willie gan ei deulu yntau, a Rhys mewn cylchoedd y tu allan.* Nid oedd gan Wncwl Bill ac Anti Beti blant, a chefais fy ystyried ganddynt fel y nesaf peth at fab go iawn. Mae fy nyled yn fawr iawn iddynt, ac mae gennyf atgofion hapus iawn am yr amserau a dreuliais yn eu cwmni yn Llandysul ac yn ddiweddarach ym Mhorth-cawl.

Rwy'n ofni nad wyf yn gymwys i gloriannu ei waith fel emynydd na phregethwr, a'r hyn sydd gennyf yn bennaf heddiw yw atgofion plentyn amdano. Eisoes, cyhoeddais ysgrif o atgofion amdano yn ei gyfrol deyrnged, *Y Cyfoeth Gorau*,** ac os ydych wedi darllen hwnnw bydd cynnwys y sgwrs yma i'r Undeb heddiw ym Mhontypridd yn lled gyfarwydd, er i mi geisio ychwanegu ato yma ac acw.

Mae fy nghof cyntaf am Wncwl Bill yn mynd yn ôl i'r cyfnod pan oedd ef ac Anti Beti yn byw yn Llaindelyn, tŷ gweinidog ym mhentref Croes-lan, tua phedair milltir i'r gogledd o Landysul. Pantteg Cross oedd enw'r pentref yr adeg honno, a thybiaf y bu gan fy ewythr ran yn y penderfyniad i ail-fabwysiadu'r enw Cymraeg gwreiddiol sy'n nodi man cyfarfod plwyfi Llandysul, Llangynllo ac Orllwyn Teifi. Symudodd i Laindelyn o Gapel y Bryn, Llanelli yn 1952 i wasanaethu eglwysi Horeb a Bwlch-y-groes. Lleolir Llaindelyn yn hwylus hanner ffordd rhwng y ddwy eglwys, ac roedd yn dŷ sylweddol yn wynebu'r de ar ochr chwith y ffordd fawr wrth i chi gyrraedd

pentref Croes-lan ar yr A486 o gyfeiriad Llandysul. Fe'i hadeiladwyd yn y flwyddyn 1905 fel mans pwrpasol i'r ddau gapel. Treuliais gryn dipyn o amser yno ar fy ngwyliau – wythnos o leiaf bob haf – ac ar adegau eraill o'r flwyddyn yn ogystal.

Nid yw Llaindelyn yn eiddo i'r eglwysi bellach, ac wrth i mi baratoi'r sgwrs yma fe ganfyddais ei fod ar werth. Roedd hi'n ddiddorol edrych ar fanylion yr arwerthwr. Fe'i marchnatwyd am bron £400,000 fel 'a former rectory', yn hytrach na mans ac mae enw'r pentref yn cael ei nodi fel Pantteg Cross, ac nid Croes-lan**.** Rwy'n sicr y byddai beiro goch Wncwl Bill mas yn syth i gywiro'r ddau wall hyn. Roedd hi'n rhyfedd gweld tŷ adar ar y lawnt yn y llun a ddarparwyd gan yr arwerthwr – mi ddof yn ôl at hwnnw eto maes o law.

Rwy'n cofio cynllun Llaindelyn yn dda. Y canolbwynt oedd stydi sylweddol gyda desg *roll-top*, rhai cannoedd o lyfrau ar bob un o'r waliau, a theledu Pye du a gwyn mewn cornel ar bwys y lle tân. O flaen y ddesg roedd cadair fodern a enillodd fy ewythr yn eisteddfod capel Brynrhiwgaled, ger Synod Inn, yn 1954. Mae'r gadair yn dal gennyf, a byddaf yn ei defnyddio bron bob dydd wrth eistedd o flaen fy nghyfrifiadur. Roedd cefn a sedd y gadair yn ddefnydd PVC lliw lemwn mwyaf erchyll, a doedd hi ddim yn benderfyniad anodd rhoi gwisg newydd llai llachar iddi! Ar y ddesg *roll top* roedd teipiadur Remington, ac ymddangosai fod cryn ddefnydd yn cael ei wneud ohono. Er ei fod yn brysur yn ei stydi yn aml, roedd ganddo ddigon o amser i'w roi i'w nai pan oeddwn ar wyliau yno. Os byddai'n bwrw glaw, roedd adloniant amrywiol ar gael yn y stydi. Efallai y byddem ni'n gwylio'r teledu – criced yn aml iawn – neu'n chwarae draffts neu wyddbwyll. Pan oeddwn yn ifancach byddai Anti Beti yn tynnu'r holl fwydydd allan o'r cypyrddau a chawn chwarae siop yn y gegin – fi yn siopwr ac Anti Beti yn gwsmer. Pan oeddwn yn hŷn, byddai Wncwl Bill yn fy annog i geisio llunio cerddi bach syml, gan osod patrwm i mi ei ddilyn a darparu llyfr bach nodiadau Lion er mwyn i mi eu cofnodi. Byddai'n eu darllen yn ofalus ac yn cynnig beirniadaeth adeiladol bob tro, ond ofnaf na chafodd lawer o lwyddiant wrth geisio fy nhroi yn fardd!

Gyferbyn â'r stydi, hefyd yn wynebu'r de, roedd lolfa braf, a gwahanwyd

y ddwy ystafell gan gyntedd eang o flaen drws ffrynt y tŷ. Ni chofiaf weld neb erioed yn defnyddio'r drws ffrynt – arferai pawb gyrraedd wrth y drws cefn, gan mai yno oedd y cyfleusterau parcio. Roedd y cyntedd yn cynnwys rhai celfi da, ond roedd yno un eitem oedd yn tynnu fy sylw yn fwy na dim, sef tŷ tywydd Siôn a Siân. Ymddangosai Siân y tu allan i'r tŷ pe bai'r tywydd yn addawol, tra byddai ymddangosiad Siôn yn arwydd o law. Byddai rhaid talu sylw manwl i'r tŷ bob dydd er mwyn darogan y tywydd, ac rwy'n dal i wneud hynny gyda'r union declyn y bûm yn ddigon ffodus i'w etifeddu.

Prin iawn oedd y defnydd a wneid o'r lolfa, ond byddai rhai ymwelwyr yn cael eu tywys yno i gael te ar droli: diaconiaid, neu aelodau eglwysig oedd wedi dod am sgwrs gyfrinachol am broblemau amrywiol, neu bâr ifanc oedd efallai yn paratoi i briodi. Byddai'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr a fyddai'n galw – gan amlaf gyda nwyddau, teisennau neu lysiau neu bethau tebyg – yn gwrthod y gwahoddiad i ddod i mewn. Dyna ffordd ymarferol cymuned cefn gwlad o ddangos eu cefnogaeth a'u caredigrwydd tuag at weinidog ifanc y gwyddent nad oedd ar gyflog uchel. Ar adegau byddai'r holl haelioni hyn yn arwain at yr hyn y byddai'r Gymuned Ewropeaidd yn ei alw'n ddiweddarach yn fynydd bwyd! Roedd dwy ystafell arall yng nghefn y tŷ, sef cegin gymharol fach yn cynnwys Rayburn, ac ystafell fwyta hwylus lle byddai pob pryd yn cael ei fwyta. Ar y llawr cyntaf roedd tair ystafell wely fawr, baddondy ac ystafell fach i storio pob math o drugareddau.

O flaen y tŷ roedd lawnt fawr a rannwyd oddi wrth ardd lysiau llewyrchus gan glawdd oedd yn llawn o nythod adar. Ar ymyl y lawnt roedd tŷ adar a wnaethpwyd gan fy ewythr, a oedd yn saer hynod o fedrus. Ac fel y soniais wrth gyfeirio at fanylion diweddar yr arwerthwr tai – roedd tŷ adar yn dal yno – ond nid yr un gwreiddiol. Roedd bwydo'r adar yn ddefod ddyddiol bwysig i Wncwl Bill, ac mae ei hoffter o fyd natur yn cael ei adlewyrchu'n aml mewn nifer o'i gerddi fel 'Y Dryw Bach Drwg' ac yn themâu rhai o'i bregethau, fel yr un am y coed yn dewis brenin allan o Lyfr y Barnwyr.

Ar lawnt Llaindelyn y cefais y cyfle cyntaf i ddysgu chwarae golff, neu bytio i fod yn fanwl gywir. Roedd Wncwl Bill wedi creu cwrs *clockwork golf* trwy osod twll yn y canol, a chreu deuddeg pwynt anelu o gorneli ac ymylon

gwahanol y lawnt. Roedd gan Wncwl Bill gasgliad sylweddol o offer golff a pheli di-ben-draw; roedd ei frawd yng nghyfraith, Dewi, yn dipyn o feistr ar y gamp, ac ef, rwy'n sicr, oedd ffynhonnell yr holl offer. Ar ddiwrnodau braf byddem yn cael picnic ar y lawnt, ac yna byddem yn cael cystadleuaeth bytio. Roedd Anti Beti, yn ogystal ag Wncwl Bill, yn hoff o'i golff, a phan symudon nhw yn ddiweddarach i Borth-cawl arferent fynd i weld rhai cystadlaethau ar gwrs enwog Royal Porthcawl. Roedd Anti Beti yn edmygydd mawr o Greg Norman ac Ian Woosnam, a chafodd y pleser o'u gweld yn chwarae ym Mhorth-cawl.

Yn ystod fy ngwyliau yn Llaindelyn byddwn yn cael teithiau niferus yn y car. Roedd Wncwl Bill mor awyddus i ddangos adeiladau hanesyddol wrth wibio heibio yn y Morris 8 fel y byddai'r siwrnai yn gallu bod yn reit frawychus ar adegau! Nid oedd Wncwl Bill gyda'r gyrrwr gorau, ac yn rhyfedd iawn rwyf newydd ddarganfod nad oedd wedi pasio ei brawf gyrru pan ddaeth i Laindelyn. Cafodd wersi yno gan un o'r diaconiaid sy'n digwydd bod yn dad-cu i un o'm cymdogion presennol. Ar adegau roedd gan Wncwl Bill arferiad digon peryglus o dynnu ei ddwylo oddi ar yr olwyn, a'u rhwbio yn ei gilydd, cyn gorffen gyda chlep fawr, gan roi'r argraff nad oedd angen llaw i lywio'r car. Roedd Anti Beti yn dipyn gwell gyrrwr gan basio ei phrawf ar y cynnig cyntaf. Ond unwaith cofiwch, fe fethodd hithau gadw'r cornel yn Ffostrasol gan orffen ar ben y clawdd yn y car!

Pan roeddwn i'n aros yn Llaindelyn byddwn yn mynd bron yn ddyddiol i Landysul, ac yn wythnosol byddai rhaid galw heibio Gwasg Gomer i ddychwelyd amlen frown fawr yn cynnwys proflenni a farciwyd bob tro â phensel goch. Roedd fy ewythr yn ffodus iawn o'r gwaith cyson a gâi gan Wasg Gomer a fu'n help sylweddol i economi'r cartref. Byddai wrth ei fodd yn darllen proflenni llyfrau, a chafodd y fraint o olygu nifer o lyfrau, gan gynnwys rhai o glasuron Islwyn Ffowc Elis megis *Blas y Cynfyd*, *Cysgod y Cryman* a *Ffenestri tua'r Gwyll,* nofel ddadleuol gyntaf Jane Edwards, *Dechrau Gofidiau*, a chyfrol gyntaf Eigra Lewis (Roberts), *Brynhyfryd*. Ymhlith y cyfrolau Saesneg a olygwyd ganddo oedd y clasur *Cliffs of Freedom* (1961), sy'n adrodd hanes bywyd y naturiaethwr Roscoe Howells fel warden ar ynys Skomer yn sir Benfro.

Cefais sawl ymweliad â Gwasg Gomer a chael fy nhywys o gwmpas yr argraffdy fwy nag unwaith. Cefais y fraint o gyfarfod ag Edward Lewis, pennaeth y cwmni, a lofnododd gopi rhodd o *Help Llaw* (John Thomas) i mi. Dengys Rhys Nicholas ei edmygedd mawr o Edward Lewis yn ei gadwyn o englynion coffa iddo a gyhoeddwyd yn ei gyfrol *Cerdd a Charol*, ac mae John Lewis, ei fab, yn talu teyrnged hael iawn i'm hewythr am ei gyfraniad i waith golygyddol Gwasg Gomer yn ei gyfrol o atgofion teuluol, *Creu Argraff*, a gyhoeddwyd yn 2012. Mae'n bosib iawn fod fy niddordeb dwfn innau yn hanes argraffu a chyhoeddi yng Nghymru yn deillio o'r ymweliadau cynnar hyn ag un o'n prif weisg cenedlaethol.

Un o gymdogion agos fy ewythr oedd T. Llew Jones, prifathro ysgol Coed-y-bryn, ychydig o filltiroedd yn unig o Laindelyn. Roeddwn yn arbennig o hoff o'i gyfrol *Llyfr Siân a Iolo*, a gyhoeddwyd yn 1956, ac rwy'n falch i allu hawlio fy mod yn un o'r rhai cyntaf i gael eistedd yn y gadair a enillodd Llew Jones yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1959 am ei awdl 'Y Dringwr'. Roedd Wncwl Bill wedi mynd â mi ar drip diwrnod i'r eisteddfod – y tro cyntaf erioed i mi ymweld â'r gogledd, rwy'n meddwl. Roedd dau ŵr arall yn gwmni i ni – Johnny Griffiths Lloyd, Maes-y-glyn, un o ddiaconiaid ac athrawon ysgol Sul Bwlch-y-groes, ac un arall o aelodau'r capel, a oedd bellach yn athro ifanc yn Nhreorci ac a wisgai sgarff las ac aur Coleg y Drindod, Caerfyrddin. Ei enw oedd Gwilym J. Thomas; daeth maes o law yn brifathro ysgol gynradd Llan-non, ac yn ŵr adnabyddus iawn i bobl Ceredigion. Yn dilyn diwrnod ar faes yr Eisteddfod fe'm dygwyd dros bont Menai er mwyn imi fedru ymffrostio ar ôl mynd adref fy mod wedi bod dramor ar fy ngwyliau!

Y noson ganlynol aeth fy ewythr â mi i weld T. Llew yn ei gartref yn Nhŷ'r Ysgol, Coed-y-bryn, ac yno y cefais yr anrhydedd o eistedd yn ei gadair. Lawer blwyddyn yn ddiweddarach, wrth ymweld â'm mam yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth, gwelais T. Llew, a oedd hefyd yn glaf yno. Soniais wrtho fy mod wedi eistedd yn ei gadair yn 1959, ac roedd ei ymateb yn ddiddorol: 'Bachgen, bachgen, cer o 'ma!' meddai, cyn i mi gael cyfle i egluro'r union amgylchiadau.

Un o dai eraill yr ardal y byddwn yn mwynhau ymweld ag ef oedd Marffo, yng Nglynarthen, cartref y Parchedig Simon B. Jones a'i briod Annie. Enwyd y tŷ yn Marffo ar ôl pentref Marvaux yng ngogledd Ffrainc lle bu farw Sim J. Jones, brawd Mrs Jones, yn y Rhyfel Mawr yn 1918. Yn ogystal â bod yn ffrind i'r teulu, roedd S.B. yn weinidog ar eglwysi Peniel a Bwlch-y-corn, ar gyrion Caerfyrddin, lle'r oedd fy nhad-cu, D. J. Evans, Tycanol, Rhydargaeau, yn drysorydd a diacon, a lle byddwn yn addoli fel plentyn bob yn ail Sul, gan y byddwn yn mynd gyda'm tad i'r eglwys yn rheolaidd hefyd. Byddai S.B., ei briod, a'r forwyn, Lizzie Evans, yn treulio misoedd yr haf yn Marffo. Roedd gan fy ewythr a S.B. dipyn yn gyffredin – ar wahân i fod yn weinidogion yn yr un enwad, roeddent yn feirdd, yn emynwyr ac yn wŷr llengar, a chafodd Rhys Nicholas y fraint o ddilyn S.B. fel un o olygyddion cylchgrawn chwarterol *Y Genhinen* yn 1964. Un o'm hatgofion mwyaf pleserus am Marffo yw'r te anferth y byddai Mrs Jones yn ei baratoi i ni bob tro.

Os dysgais i chwarae golff ar lawnt Llaindelyn, yna dysgais gamp arall ar lawnt Marffo. Roedd S.B. yn dipyn o giamstar ar chwarae *croquet*, a chyflwynodd fi i'r gêm honno ar fwy nag un achlysur ar lawnt y tŷ. Pwy fysai'n disgwyl derbyn cyflwyniad i ddwy gêm soffistigedig fel golff a *croquet* ym mherfeddion sir Aberteifi ar ddiwedd yr 1950au, gan ddau o weinidogion yr Annibynwyr?

Yn ystod fy ngwyliau yn Llaindelyn byddwn yn cael ambell daith i lan y môr – roedd Aberaeron, Ceinewydd a Llangrannog o fewn cyrraedd hwylus, ac yn y Cei y profais fy nhaith gyntaf mewn cwch. Byddai Pont Henllan a rhaeadr Cenarth yn ffefrynnau eraill, a phan fyddwn yn mynd i'r felin yng Nghenarth roedd rhaid dod adref gyda chwdyn o flawd ceirch a'i fwyta fel grawnfwyd i frecwast y diwrnod canlynol. Byddwn hefyd yn mynd yn achlysurol gyda'm hewythr i ymweld â chymdogion ac aelodau'r capel. Rwy'n cofio'n arbennig am y croeso cynnes a fyddai'n fy aros bob tro ar aelwyd nodedig fferm Rhiwlug yn Nhre-groes, gan y ddau frawd Cerdin ac Elwyn Williams a'u chwaer Nansi (er, fel eglwyswyr, nid oeddent yn aelodau yn ei gapeli), a'r chwiorydd dawnus Hettie a Sarah Davies, Talfan, Croes-lan, a oedd yn bileri'r achos ym Mwlch-y-groes, ac yn fodrybedd i

Dafydd Elis Tomos. Byddwn hefyd yn elwa'n ariannol o'r holl ymweliadau hyn, a chofiaf fynd adref ar ôl un arhosiad gyda'r swm anrhydeddus o 17 swllt a 6 cheiniog yn fy mhoced. Pwy ddywedodd nad oedd y Cardis yn bobl hael?

Ar y Suliau byddwn yn mynychu'r oedfaon yn Horeb a Bwlch-y-groes. Bwlch-y-groes oedd y mwyaf o'r ddau adeilad. Adeiladwyd y capel presennol yn gymharol ddiweddar yn 1880, er bod yr achos yn dyddio o 1833. Roedd Horeb, a sefydlwyd yn 1784, yn dipyn llai o gapel, ac fe'i hail adeiladwyd fwy nag unwaith. Ymddengys fod bwrlwm arbennig o gwmpas Bwlch-y-groes, lle'r oedd nifer dda o bobl ifanc dawnus a thalentog yn mynychu'r capel. Yn eu plith roedd Emyr Lyn Evans, a roddodd oes o wasanaeth i'r enwad fel gweinidog, ac Emyr arall – Emyr Llewelyn, mab T. Llew Jones – y bu Rhys Nicholas, fel ei weinidog, yn rhoi tystiolaeth lafar o blaid ei gymeriad adeg achos Tryweryn ym mrawdlys Caerfyrddin yn Chwefror 1963. A chefais y fraint o gydweithio â thri o blant yr eglwys hon yn y Llyfrgell Genedlaethol – Miss Nansi Ceridwen Jones, is-geidwad yn Adran y Llawysgrifau, Mrs C. Mary Jones, ysgrifenyddes y Llyfrgellydd, ac Alan Thomas, nai i Gwilym J. Thomas, a fu ar staff argraffdy'r Llyfrgell – neu 'Alan Ffostrasol' i bawb. Byddai Wncwl Bill yn hoffi adrodd un stori ddoniol am Alan, ac rwy'n siŵr y byddai'n maddau imi am ei chynnwys yma. Ar ôl i Alan ddweud ei adnod, 'Myfi yw'r Bugail Da' mewn oedfa un bore Sul, gofynnodd Wncwl Bill iddo, 'Alan, wyt ti'n gwybod pwy ddwedodd y geiriau yna?' 'Ydw,' atebodd Alan yn unionsyth, 'Fi, Mr Nicholas!' Byddwn yn gofyn yn achlysurol i'm hewythr pa un o'r ddau oedd ei hoff gapel, ond ateb yn ddiplomyddol y byddai bob tro heb ddangos yr un ffafriaeth i'r naill dros y llall.

Yn 1964 derbyniodd alwad i weinidogaethu yn eglwys y Tabernacl, Fenton Place, Porth-cawl, a symudodd yno fis Mawrth 1965. Roedd nifer yn ei chael yn anodd iawn i ddeall ei gymhelliad i symud o ardal Gymreig yng ngorllewin Cymru i dref wyntog a Seisnig ar lan y môr, â'i delwedd boblogaidd fel cyrchfan pleser a ddominyddwyd gan ffair enfawr a miloedd o ymwelwyr anystywallt yn ei mynychu bob haf! Mae'n ddiddorol nodi i'm hewythr ddewis, o fewn chwe mis i symud, i ysgrifennu'n amddiffynnol

iawn a chanu clodydd ei gartref newydd. Yn ei golofn fisol 'Hwnt ac Yma' yn y *Cardigan & Tivy-side Advertiser*, 25 Awst 1965, mae'n dwyn sylw arbennig at ragoriaethau'r dref, fel Rest Bay a'r cyfoeth o bentrefi hynafol, hyfryd sydd o fewn cyrraedd hwylus iddi, gan lwyr anwybyddu'r ddelwedd draddodiadol. Ac o ran adar soniodd iddo glywed y gwcw yn amlach ym Mhorth-cawl nag yn Llaindelyn!

Nid wyf yn meddwl iddo erioed fod yn edifar am symud i Borth-cawl, a bu yntau ac Anti Beti yn hapus iawn yno. Roedd ganddo dan ei ofal gapel hardd, modern a agorwyd mor ddiweddar ag 1931, ac fel yn ardal Llandysul, bu'n ffodus iawn yn ei gynulleidfa a'i swyddogion hynod o gefnogol. Roedd y mans, Erw Las, yn South Place, er yn llai na Llaindelyn, yn dŷ braf, ac yn ffinio â chae rygbi clwb Porth-cawl. Ar adegau byddai tîm cenedlaethol Cymru a'u gwrthwynebwyr yn ymarfer yno o flaen gemau rhyngwladol. Cofiaf yn dda wylio'r Crysau Duon dros wal yr ardd gefn.

Ar ôl iddo gyrraedd Porth-cawl taflodd ei hun i weithgarwch lleol yn syth a bu'n ddiwyd gyda threfniadau'r Eisteddfod Genedlaethol oedd ar fin ymweld ag Aberafan yn Awst 1966. Yn ddiweddarach bu'n cynnal dosbarthiadau efrydiau allanol dan nawdd Coleg y Brifysgol, Abertawe, ac yn darlithio i sawl cymdeithas leol. Datblygodd festri'r Tabernacl yn gartref i'r ysgol feithrin leol, ac ymhen amser daeth honno'n ffynhonnell bwysig o blant i'r ysgol Sul lewyrchus ac i ysgol gynradd Gymraeg y Ferch o'r Sger a agorwyd yn 1982. Ychydig wedi hynny, yn 1987, roedd yn un o sylfaenwyr papur bro *Yr Hogwr,* a ddathlodd chwarter canrif o weithgaredd yn 2012. Gweithiodd hefyd yn ddiflino i wahodd yr Eisteddfod Genedlaethol i Ben-y-bont ar Ogwr, ac er na fu fyw i'w gweld, cafodd y pleser o wybod y byddai'n cael ei chynnal yno yn 1998.

Ar ôl iddo ef ac Anti Beti symud i Borth-cawl, byddwn yn eu gweld yn rheolaidd yn ein cartref yng Nghaerfyrddin, ond prin oedd fy ymweliadau â Phorth-cawl yn ystod fy arddegau. Pan fyddai ef ac Anti Beti yn galw yng Nghaerfyrddin byddai'n cymryd diddordeb arbennig yn fy ngwaith ysgol, a chofiaf yn fy mlwyddyn lefel O gael ei gymorth parod i ysgrifennu gwerthfawrogiad o'r gerdd 'Aberdaron' gan Cynan. Cefais farc 9/10 gan fy athro Cymraeg, E. J. Rees, neu 'Bull' i ni blant, am yr ymdrech arbennig

hon, ond gyda'r sylw sarhaus braidd: 'Ardderchog, Richard: ond gwaith pwy yw hwn?' Ar ôl imi briodi Eirlys a chael teulu yn 1975, byddem yn treulio tipyn o amser yn Erw Las.

Roedd patrwm y gwyliau yn debyg i rai Llaindelyn, gydag Wncwl Bill yn awyddus iawn i ddangos gogoniannau'r ardal, megis capel Bethesda'r Fro, priordy a chrochendy Eweni, castell a cherrig rhyd Aberogwr, ac ambell leoliad annisgwyl megis y tŷ lle yr honnwyd bod Lord Lucan wedi cuddio ar ôl dianc dan amgylchiadau amheus yn 1974.

Ond byddai rhaid hefyd sicrhau bod Gwion, ein mab, yn mynd i fwydo'r hwyaid ar y llyn a chael cyfle i ymweld â'r ffair bleser yn Coney Beach. Roedd gan Wncwl Bill ffordd reit wreiddiol o rybuddio Gwion i beidio â gorwario ar y peiriannau 'penny falls'. Bob tro y byddem yn mynd heibio Coedargraig, cartref hardd Syr Leslie Joseph, perchennog y ffair, ar gyrion Porth-cawl, byddai'n ei atgoffa bod pob ceiniog y byddai'n ei gwario ar y 'penny falls' yn mynd tuag at brynu un bwlb cennin Pedr i'w ychwanegu at y miloedd oedd eisoes yn addurno'r gerddi bendigedig!

Ymddeolodd Rhys Nicholas o'i weinidogaeth yn 1983 a symud i fyw i gyrion y dref yn Newton, ac ymhen dwy flynedd fe'i cafodd ei hunan yn ŵr gweddw yn dilyn salwch byr a chreulon ei briod. Bu farw Anti Beti yn 64 oed yn Awst 1985. Er bod hyn yn ergyd enfawr iddo ymatebodd yn bositif iawn a llwyddodd i'w gadw ei hun yn brysur ac yn annibynnol am dros ddegawd arall. Bu'n ffodus iawn yn y gefnogaeth a gafodd gan aelodau'r Tabernacl, yn arbennig gan ei olynydd, y Parchedig W. Alwyn Lloyd, a bu cymorth ei chwaer yng nghyfraith a'i gŵr, Enid a David Walters, ym Mhen-y-bont ar Ogwr gerllaw, yn amhrisiadwy o werthfawr.

Parhaodd ei gysylltiad â Gwasg Gomer, ond hefyd fe wnaeth ymgymryd â chryn dipyn o waith golygyddol i Wasg John Penri, gan deithio'n rheolaidd i'r swyddfa yn Abertawe. Yn 1987 penderfynodd brynu cyfrifiadur Amstrad a daeth yn feistr arno mewn byr amser ac yntau'n 73 oed ar y pryd. Yn dilyn ei farwolaeth gofynnwyd i mi archwilio'r disgiau yn ofalus am ddeunydd anghyhoeddedig, a bûm yn ddigon ffodus i ganfod dau emyn newydd. Un o'r emynau hynny oedd emyn Cymorth Cristnogol sydd bellach yng *Nghaneuon Ffydd* (841):

Agor di ein llygaid, Arglwydd
i weld angen mawr y byd

Erbyn diwedd yr 1980au tro Eirlys a minnau oedd cynnig llety i Wncwl Bill yn ein cartref yn Aberystwyth pan ddeuai i fyny i bwyllgorau Bwrdd yr Orsedd, cyfarfodydd Cymdeithas Emynau Cymru neu i ysgol benwythnos yr Annibynwyr, i bregethu yn un o gapeli'r ardal, neu i dreulio ychydig o amser yn ymchwilio yn y Llyfrgell Genedlaethol. Roedd wastad yn gwmni difyr a byddem yn sgwrsio ac yn trafod yn aml tan oriau mân y bore am grefydd, gwleidyddiaeth a materion cyfoes. Yn aml iawn byddem yn cael cwmni ein cymydog Mrs Marian Henry Jones, a fu'n gyd-fyfyriwr gydag Wncwl Bill yng ngholeg y brifysgol yn Abertawe ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Ymwelydd cyson arall fyddai'r diweddar Barchedig Tudor Davies, a byddai'r ddau wrth eu bodd yng nghwmni ei gilydd yn trafod emynyddiaeth ac yn cymharu nodiadau ar eu cynnyrch diweddaraf. Roedd y rhain yn ddyddiau difyr, a byddai Wncwl Bill yn mwynhau'r *chilli con carne* neu'r *spaghetti bolognese* oedd ar y fwydlen arferol, gyda gwydraid neu ddau o win coch.

Ar un adeg, cyn salwch Anti Beti, bu'r ddau yn ystyried ymddeol i Aberystwyth, ond roedd y cwlwm â Phorth-cawl yn llawer rhy dynn i'w ddatod. Roedd Anti Beti â'i chwerthin iach yn medru goleuo unrhyw gwmni, ac roedd y ddau fel cwpwl yn gyfuniad o hapusrwydd perffaith. Hawliai Anti Beti'r clod am ychwanegu'r 'Halelwia' yn glo i 'Pantyfedwen', a byddai hynny'n gwbl nodweddiadol o'i chymeriad allblyg hi. Bûm yn ffodus iawn i'w cael yn ewythr a modryb, ac i dreulio cymaint o amser da yn eu cwmni. Mae fy nyled yn enfawr i'r ddau ohonynt, ac mae'r hiraeth yn parhau ar eu hôl. Claddwyd eu llwch ym mynwent gyhoeddus Porth-cawl, ac mae eu carreg fedd yn un nodedig iawn:

I Gofio'n Dyner
Am
Y Parchg
W. RHYS NICHOLAS B.A., B.D.
1914 - 1996
Gweinidog, Emynydd a Golygydd
HUNODD YN DAWEL HYDREF 2, 1996
Hefyd ei Annwyl Briod
BETI
1921 - 1985
A HUNODD MEDI 20, 1985
Mae'r Haleliwia yn fy enaid i.

* Willie Rees yw'r enw a geir ar ei dystysgrif geni.

** *Y cyfoeth gorau: cyfrol deyrnged i W. Rhys Nicholas 1914–96*; golygwyd gan Rhidian Griffiths gyda detholiad o'i waith gan E. Wyn James (Cymdeithas Emynau Cymru, 2014), tt. 30–7.